# Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

# Cofnodion

**Teitl y cyfarfod:**

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

**Lleoliad:** Cyfarfod dros Microsoft Teams

**Dyddiad y Cyfarfod:** 21 Mehefin 2021

**Yn bresennol:**

Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)

Dennis Matheson, TFA

Creighton Harvey, CFF

Bob Vaughan, CNC

Sarah Jones, Dŵr Cymru

Marc Williams, CNC

James Ruggeri, HCC

Edward Davies, CNC

Bernard Griffiths, FUW

Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL)

Spencer Conlon, LlC

Andrew Chambers, LlC

Nichola Salter, CNC

Shane Thomas, CFF

Geraint Hamer, LlC

Katy Simmons, CNC

Einir Williams, Cyswllt Ffermio

Fraser McAuley, CLA

Kate Snow, United Utilities

Ruth Johnston, CNC

Matthew Walters, LlC

Sarah Hetherington, CNC

Elizabeth Franks, Hafren Dyfrdwy

Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

**Unigolion Ychwanegol a Oedd yn Bresennol:**

Cath Lehane, Safonau Sicrwydd Bwyd

Moss Jones, Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru (Eitem 5 yn unig)

Iestyn Jones, Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru (Eitem 5 yn unig)

Shaun Thomas, DCWW (Eitem 6 yn unig)

**Ysgrifenyddiaeth:**

Bronwen Martin, CNC

**Ymddiheuriadau**

Neb

## Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant

1. Croesawodd Zoe Henderson bawb i'r cyfarfod Microsoft Teams gan nodi'r ymddiheuriadau. Sylwer: caiff y cyfarfod ei recordio er mwyn cael recordiad o'r cofnodion a bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu ar ôl i gofnodion y cyfarfod gael eu cwblhau.

2. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â'r eitemau i'w hystyried ar yr Agenda.

   - DS: Roedd holl aelodau'r grŵp eisoes wedi llenwi ffurflenni datgan buddiant, ond roedd disgwyl iddynt hefyd gyflwyno datganiad os oedd ganddynt fuddiant mewn unrhyw beth ar yr agenda.

3. Croesawodd Zoe y cyflwynwyr gwadd i'r cyfarfod; Cath Lehane (Rheolwr Technegol y Tractor Coch, Safonau Sicrwydd Bwyd), Iestyn Jones a Moss Jones (Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf) a Shaun Thomas (Rheolwr Gweithrediadau Biosolidau, Dŵr Cymru Welsh Water).

## Eitem 2 Adolygu'r Cofnodion a'r Camau Gweithredu

4. Ar ôl i'r grŵp adolygu cofnodion y cyfarfod a chytuno'n ffurfiol arnynt, cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd y cofnodion hynny'n cael eu cyhoeddi ar wefan CNC lle byddant ar gael i'r cyhoedd. Felly, mae'n bwysig i'r cofnodion fod yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd.

5. Adolygodd y grŵp gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 17 Mai 2021. Dywedodd Zoe fod Bronwen Martin, CNC, wedi cael rhai sylwadau gan Creighton Harvey, CFF, cyn y cyfarfod.

6. Dywedodd Bernard Griffiths, FUW, fod Pwynt 34 y cofnodion yn dweud ei fod yn gynrychiolydd TFA yn hytrach nag yn gynrychiolydd FUW.

7. Rhannodd Bronwen Martin, CNC, daenlen y Log Gweithredu er mwyn i'r grŵp adolygu'r camau gweithredu sydd heb eu cymryd ers y cyfarfodydd blaenorol. Gwnaed y sylwadau canlynol:

    - PG 04 Mawrth: Bod Sarah Hetherington, CNC, yn rhoi awgrym ysgrifenedig i Spencer Conlon, LlC, ynghylch cynorthwyo a chefnogi ffermwyr i benderfynu ar y modiwlau cywir i'w cymryd.

- *Dywedodd Sarah ei bod yn aros i Spencer anfon manylion pellach ati ynglŷn â'r modiwlau, fel y gall gyflwyno rhywfaint o adborth. Dywedodd Sarah y bydd yn mynd ar drywydd hyn gyda Spencer ac Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru.*

    - PG 05 (22 Ebrill): Bod Bob Vaughan, CNC, yn rhannu canllawiau â'r grŵp sy'n dweud bod systemau storio slyri newydd yn cael eu hystyried yn ddatblygiadau niwtral o ran ffosffad.

- Dywedodd Ed Davies, CNC, ei fod wedi siarad â Jackie Walters, CNC. Mae canllawiau sgrinio newydd i'w cael ar wefan CNC ar gyfer cynllunwyr mewn cynghorau lleol, lle nodir y byddant yn cael eu sgrinio. Dywedodd Ed fod cydweithwyr cynllunio wedi dweud nad ydynt yn rhagweld cynnydd o ran y llwyth ffosffad yn sgil strwythur newydd arfaethedig (h.y. nid oes unrhyw stoc ychwanegol yn gysylltiedig ag ef). Bydd hyn yn cael ei sgrino. Pan na fo hyn yn wir, bydd yn rhaid dangos hynny. Mae Ed yn aros am wybodaeth i'w chyflwyno i'r aelodau. Eglurodd Sarah Hetherington, CNC, fod yr wybodaeth hon yn ymwneud â'r ffosffad yn hytrach na'i sgrinio a'i grynswth. Cadarnhaodd Ed y bydd yn anfon gwybodaeth ysgrifenedig at yr aelodau maes o law.

    - PG 06 (22 Mawrth): Bod Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, yn siarad â Bob Vaughan, CNC, ynghylch trefnu cyfarfod ar wahân i drafod yr adroddiad ACA ymhellach.

- *Cadarnhaodd Bob Vaughan, CNC, a Marc Willliams, CNC, fod y cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer yfory.*

    - PG 01 Ebrill: Bod Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru, yn rhannu'r diweddariad i'r ddogfen Cwestiynau Cyffredin ynghylch ffermwyr sy'n denantiaid.

- Dywedodd Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru, fod y ddogfen hon yn dal i fod ar y gweill. Mae'r ddogfen yn dechnegol iawn oherwydd y ddeddfwriaeth tenantiaeth, felly mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r cyfreithwyr i'w chwblhau cyn gynted ag y gallant a bydd y ddogfen yn cael ei rhannu cyn gynted â phosibl.

  - PG 07 Ebrill: Bod Elizabeth Franks, Hafren Dyfrdwy, yn bwrw golwg dros gais e-bost Bernard Griffiths, FUW, ac yn darparu unrhyw fanylion ychwanegol.

- Dywedodd Liz ei bod wedi adolygu'r cais a choladu peth gwybodaeth. Bydd yn anfon yr wybodaeth at Bernard yr wythnos hon ac yna'n dirwyn y cam gweithredu hwn i ben.

## Eitem 3 Materion sy'n Codi

8. Dyma gyfle i'r grŵp drafod unrhyw faterion sy'n deillio o gofnodion y cyfarfod blaenorol, ynghyd ag adrodd am wybodaeth arwyddocaol, cyflwyno sylwadau neu drafod unrhyw bynciau perthnasol.

9. Dywedodd y cadeirydd fod trafodaeth ddefnyddiol wedi'i chynnal yn ystod cyfarfod y mis diwethaf ynglŷn â'r ddogfen Cylch Gorchwyl. Mae'r tîm wedi llunio'r fersiwn derfynol arfaethedig a gofynnodd Zoe a oedd gan y grŵp sylwadau terfynol eraill ynglŷn â'r ddogfen.

   Eglurodd Fraser McAuley mai ystyr 'CLA' yw 'Country Land and Business Association' (neu 'Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad').

   Os na dderbynnir sylwadau neu ymholiadau eraill yn dilyn y cyfarfod hwn, dywedodd Zoe y bydd yr aelodau'n mabwysiadu'r ddogfen hon fel Cylch Gorchwyl terfynol Is-grŵp y Fforwm Rheoli Tir ar Lygredd Amaethyddol.

10. Dywedodd Katy Simmons, CNC, fod dogfen ganllaw ar gyfer Is-grŵp y Fforwm Rheoli Tir ar Lygredd Amaethyddol wedi'i hanfon cyn y cyfarfod, a'r gobaith yw y bydd y grŵp yn ei chymeradwyo yn y cyfarfod heddiw. Dywedodd Katy fod Ed Davies, CNC, wedi anfon e-bost yn cynnwys yr erthyglau a gyflwynwyd hyd yn hyn ac y bydd copi drafft o'r Cylchlythyr yn cael ei anfon cyn bo hir ar ôl iddo gael ei lanlwytho ar y templed.

    Cyfeiriodd Katy at y ffaith y gofynnwyd i'r aelodau bleidleisio o blaid eu hoff enw ar gyfer y Cylchlythyr, neu awgrymu enw arall. Ar hyn o bryd mae'r sgôr yn gyfartal, fel petai, ac mae'r darpar enwau canlynol wedi cael yr un faint o bleidleisiau:

    - Ffermio Dilygredd

    - Ein Tir

    Gofynnodd Katy i'r grŵp a oeddynt eisiau bwrw pleidlais derfynol dros yr enwau hyn. Awgrymodd Zoe nad oedd yn rhaid i aelodau'r grŵp gytuno ar yr enw heddiw o angenrheidrwydd, ond y byddai'n dda o beth iddynt benderfynu arno'n fuan fel y gellir cyhoeddi rhifyn cyntaf y cylchlythyr.

Dywedodd Creighton Harvey, CFF, ei fod wedi awgrymu enw arall, sef ‘Ein Tir, Ein Dŵr a’n Haer’. Dywedodd Katy fod tri o enwau eraill wedi’u cynnig gan yr aelodau, yn cynnwys:

- Ein Tir, Ein Dŵr a’n Haer
- Dilygredd
- Ffermio Cynaliadwy

Dywedodd Katy y byddai’n fodlon dosbarthu’r awgrymiadau eraill a rhoi wythnos arall i’r aelodau benderfynu. Dywedodd Chris Mills, WEL, mai ef oedd wedi awgrymu un o’r enwau amgen ond ei fod yn dymuno nodi y dylid, o bosibl, osgoi defnyddio’r gair ‘llygredd’ gan fod pob mathau o ystyron a rhagdybiaethau’n gysylltiedig ag ef. Dylid dewis enw mwy cadarnhaol, optimistaidd a chalonogol ar gyfer y cylchlythyr. Cytunodd Zoe gyda Chris, ond dywedodd y gall ‘ffermio cynaliadwy’ gwmpasu mwy na’r hyn y bydd y grŵp yn ei gyflawni. Cytunodd Sarah Hetherington, CNC, gyda Zoe a dywedodd y bydd y maes ffermio cynaliadwy’n cymhlethu yn ystod y blynyddoedd nesaf, gyda ‘rheoli tir yn gynaliadwy’ yn fframwaith ar gyfer y cyfeiriad posibl y soniwyd amdano yn y Papur Gwyn yn ôl ym mis Rhagfyr. Hefyd, cytunodd Sarah y dylai enw’r cylchlythyr fod yn un cadarnhaol.

Yn ôl Bernard Griffiths, FUW, ni waeth pa enw y cytunir arno, dylai fod yn ddwyieithog – fel arall, ni fydd yn llwyddo i gyrraedd 100% o ffermwyr Cymru, oherwydd ni fydd cyfran arbennig o’r ffermwyr hyn yn ei godi a’i ddarllen. Cadarnhaodd Katy y bydd y teitl a’r cylchlythyr cyfan yn ddwyieithog.

Gofynnodd Zoe i’r grŵp a oedd yna gytundeb cyffredinol na ddylai’r teitl gynnwys y gair ‘llygredd’. Cytunodd nifer o’r aelodau â’r argymhelliad hwn. Dywedodd Zoe fod ‘Ein Tir’ yn enw poblogaidd arall a gofynnodd i’r aelodau am eu barn ynglŷn â’r teitl arfaethedig hwn. Dywedodd Sarah Jones, DCWW, ei bod yn hoff o ‘Ein Tir’ gan ei fod yn eithaf byr a bachog. Dywedodd Dennis Matheson, TFA, nad yw ‘Ein Tir’ mewn gwirionedd yn eiddo i rywun. Cydnabu Ruth Johnston, CNC, nad yw’r grŵp yn dymuno i’r teitl gyfeirio at y gair ‘llygredd’, ond dywedodd nad yw ‘Ein Tir’ o angenrheidrwydd yn canolbwyntio ar y pwnc dan sylw, sef ffermio mewn modd glanach. Awgrymodd Zoe fod yna rai posibiliadau eraill, fel ‘Tir a Dŵr Glân’ neu ‘Tir, aer a dŵr glân’ – sef teitlau sy’n canolbwyntio ar elfennau cadarnhaol. Dywedodd Ruth y dylid cynnwys ‘ffermio’ yn y teitl, o bosibl, er mwyn i’r bobl iawn godi’r cylchlythyr a’i ddarllen. Dywedodd Katy fod y drafodaeth hon wedi bod yn fuddiol ac y bydd yn meddwl drachefn am fwy o opsiynau posibl ar gyfer y teitl. Yna, bydd y grŵp yn cael rhyw wythnos i bleidleisio a phenderfynu ar deitl fel y gellir rhoi trefn ar hyn cyn y cyfarfod nesaf. Awgrymodd Ruth ‘Ffermio ar gyfer y dyfodol’ a ‘Ffermio er budd yr amgylchedd’.

Gofynnodd Katy i’r grŵp a oedd gan unrhyw un o’r aelodau sylwadau’n ymwneud â dogfen ganllaw’r cylchlythyr. Rhannodd Katy ei sgrin ac aeth ati i dywys pawb trwy bwyntiau allweddol y ddogfen ganllaw. Gofynnodd Sarah Hetherington, CNC, a oedd gan Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru restr bwrpasol o randdeiliaid, a sut bydd gofynion GDPR (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data) yn cael eu bodloni. Dywedodd Katy fod rhestr o randdeiliaid i’w chael pan gâi’r cylchlythyr ei ddosbarthu yn y gorffennol, ond y byddai’n rhaid iddi holi sut câi’r rhestr hon ei defnyddio’n flaenorol. Yn sicr, gellir gofyn i bobl a fyddent yn fodlon i’r cylchlythyr gael eu hanfon atynt; ond ar y cychwyn, y

bwriad yw anfon y cylchlythyr trwom ni ein hunain pe bai pob un ohonoch yn fodlon ei anfon at randdeiliaid y gweithiwch gyda nhw eisoes ac a allai fod â diddordeb ynddo. Yn raddol, efallai y bydd y tanysgrifiadau uniongyrchol yn cynyddu wedyn. Gofynnodd Ruth a fyddai modd cynnwys nodyn yn rhifyn cyntaf y cylchlythyr yn dweud rhywbeth tebyg i 'os nad ydych yn dymuno cael y cylchlythyr hwn eto, gadewch inni wybod'. Cytunodd Zoe y gellid cael opsiwn 'optio allan' ar gyfer pobl nad ydynt yn dymuno cael y cylchlythyr. Dywedodd Katy fod modd cynnwys rhywbeth o'r fath.

Rhoddodd Katy wybod y bydd yr erthyglau'n cael eu rhoi yn y templed ac y gellir eu dosbarthu ar ffurf ddrafft i'r aelodau gyflwyno sylwadau arnynt. Diolchodd Ed Davies, CNC, i'r rhai a oedd wedi anfon erthyglau. Yn ôl Ed, mae'n bwysig nodi y bydd llwyddiant y cylchlythyr yn dibynnu ar bawb yn helpu ac yn cyflwyno gwybodaeth.

11. Gofynnodd Zoe a oedd unrhyw bynciau eraill i'w crybwyll yn ystod yr eitem hon. Ni chrybwyllodd yr aelodau unrhyw bynciau eraill.

## Eitem 4 Cyflwyniad y Tractor Coch

12. Estynnodd y Cadeirydd groeso i Cath Lehane i'r cyfarfod. Cath yw Rheolwr Technegol y Tractor Coch yn y Safonau Sicrwydd Bwyd.

13. Rhannodd Cath ei sgrin a dechreuodd trwy gynnig trosolwg o gynllun y Tractor Coch:

- Caiff cynllun y Tractor Coch ei ddilysu'n annibynnol fel un o arweinwyr mwyaf blaenllaw'r byd o ran sicrwydd cadwyni bwyd.
- Fe'i crëwyd yn y flwyddyn 2000 er mwyn rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr fod bwyd Prydain yn ddiogel a'i fod yn cael ei gynhyrchu mewn modd cyfrifol … heddiw mae'n sail i'r honiad: "Mae amaethyddiaeth Prydain yn meddu ar rai o'r safonau cynhyrchu uchaf yn y byd".
- Mae pob Manwerthwr a gweithredwr Gwasanaethau Bwyd mawr, ynghyd â nifer o brif Frandiau'r DU, yn mynnu cael y Tractor Coch ar gyfer eu manylebau prynu ym Mhrydain a'u diwydrwydd dyladwy ar gyfer cynnyrch sylfaenol.
- Mae 46,000 o ffermwyr wedi'u hardystio gan gynllun y Tractor Coch ac ymddengys y logo ar £14bn o Fwydydd a Diodydd y DU.
- Caiff safonau'r holl gadwyn fwyd eu seilio ar wyddoniaeth, tystiolaeth, deddfwriaeth, arferion gorau a galw defnyddwyr, ac maent yn berthnasol i bob sector amaethyddol (ac eithrio wyau a physgod).
- Caiff cydymffurfiaeth ei chyflawni trwy gyfrwng Cyrff Ardystio annibynnol a achredir yn ôl safon ISO 17065 gan UKAS.
- Sefydliad nid-er-elw ydyw. Mae'n gweithredu'n annibynnol ac mae'n cyflogi oddeutu 25 o staff.
- NFU, NFUS, UFU, y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB), Dairy UK a BRC sy'n berchen arno.

- Mae oddeutu 75% o holl amaethyddiaeth y DU ag ardystiad cynllun y Tractor Coch.

14. Disgrifiodd Cath safonau'r cynllun. Mae'r Tractor Coch yn berchen ar, ac yn datblygu, y safonau canlynol:

    - Ffermydd:

- Cig eidion a chig oen
- Cynnyrch llaeth
- Moch
- Dofednod (Ieir, Tyrcwn a Hwyaid)
- Cynnyrch Ffres
- Cnydau Combein a Betys Siwgr

    - Y tu hwnt i lidiart y fferm:

- Marchnadoedd Arwerthu Da Byw a Chanolfannau Casglu
- Cludo Da Byw
- Prosesu Cig a Dofednod

15. Rhoddodd Cath fraslun o gwmpas y safonau, yn cynnwys:

    - Diogelwch Bwyd
    - Olrhain
    - Iechyd a Lles Anifeiliaid
    - Diogelu'r Amgylchedd (sylwer: 'diogelu' nid 'gwella').

16. Caiff y safonau eu datblygu gan Bwyllgorau Cynghori Technegol Cynllun Sicrwydd y Tractor Coch sy'n cynnwys arbenigwyr cymwysedig a rhanddeiliaid profiadol.

17. Nododd Cath fod yr elfennau canlynol yn perthyn i'r safon:

    - Adolygiad bob tair blynedd
    - Ymgynghoriad – rhoi cyfle i randdeiliaid allweddol gyflwyno sylwadau
    - Ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid, yn cynnwys manwerthwyr a chwsmeriaid gwasanaethau bwyd, cadwyni cyflenwi'r diwydiant ac undebau'r ffermwyr.

18. Mae cwmpas daearyddol cynllun y Tractor Coch yn ddarlun braidd yn gymhleth gan ei fod yn cwmpasu gwahanol wledydd ar gyfer gwahanol gynlluniau a chan fod cytundebau cydnabyddiaeth gilyddol i'w cael gyda rhai cynlluniau gwarant fferm eraill mewn gwledydd eraill. I grynhoi, caiff y DU ei chwmpasu, naill ai gan gynlluniau'r

Tractor Coch neu trwy gydnabyddiaeth gilyddol, ym mhob sector ac eithrio Cnydau Combein. Ceir trosolwg isod:

- Brwyliaid: y DU
- Cynnyrch: y DU
- Cynnyrch Llaeth: y DU
- Moch: Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon (mae gan QMS gydnabyddiaeth gilyddol)
- Cnydau: Cymru a Lloegr (mae Scottish Quality Crops ar waith, ond nid oes ganddo gydnabyddiaeth gilyddol)
- gwartheg eidion a defaid: Lloegr (Cydnabyddiaeth gilyddol â FAWL, QMS a NIFQAS).

19. Dywedodd Cath y canlynol ynglŷn â chyfwerthedd a chydnabyddiaeth gilyddol:

- Meincnodi safonau – rhwng ein cynllun ein hunain a chynlluniau cydnabyddiaeth gilyddol
- Mae fframwaith meincnodi gweithredol wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd
- …ond fe fydd yna rai gwahaniaethau bob amser – y nod yw dangos canlyniadau cyfwerth yn hytrach nag union gyfwerthedd .

20. Aeth Cath ati i dywys y grŵp trwy'r manylion aelodaeth ar gyfer Cymru:

- Ieir = cyfanswm aelodaeth o 114 a chyfanswm safleoedd o 114
- Cnydau = cyfanswm aelodaeth o 216 a chyfanswm safleoedd o 262
- Cynnyrch llaeth = cyfanswm aelodaeth o 1474 a chyfanswm safleoedd o 1565
- Cynnyrch ffres = cyfanswm aelodaeth o 28 a chyfanswm safleoedd o 34
- Moch = cyfanswm aelodaeth o 32 a chyfanswm safleoedd o 32
- Tyrcwn = cyfanswm aelodaeth o 9 a chyfanswm safleoedd o 9
- Cyfanswm = cyfanswm aelodaeth o 2274 a chyfanswm safleoedd o 2523

21. Rhoddodd Cath fraslun o'r broses ardystio i'r grŵp:

- Mae cynllun y Tractor Coch yn gosod safonau ar sail gwyddoniaeth, tystiolaeth a deddfwriaeth
- Mae cynllun y Tractor Coch yn trwyddedu'r safonau i Gyrff Ardystio Annibynnol
- Mae'r Cyrff Ardystio yn asesu ac yn ardystio ffermydd a'r gadwyn gyflenwi

- Gall ffermwyr (ac eithrio ffermwyr llaeth) ddewis rhwng y Cyrff Ardystio; fodd bynnag, mae'r asesiadau yn union yr un fath â'i gilydd

- Caiff y fferm ei hasesu'n flynyddol gan y Corff Ardystio (bob 18 mis ar gyfer da byw er mwyn gweld y gwahanol dymhorau)

- Os bydd yr asesydd yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio, bydd y ffermwr yn cael gwybod a bydd yn cael 28 diwrnod i gywiro'r diffyg cydymffurfio dan sylw

- Gan ddibynnu ar natur a nifer yr achosion o ddiffyg cydymffurfio, efallai y bydd y fferm yn cael ei chategoreiddio'n fferm y dylid cynnal arolwg dirybudd arni

- Ar ôl i'r fferm basio, bydd y Corff Ardystio'n rhoi gwybod i gynllun y Tractor Coch ac yn rhoi tystysgrif gwarant i'r ffermwr

22. Soniodd Cath fod 'Dull ar Sail Risg' wedi'i roi ar waith rhyw dair blynedd yn ôl:

    - O'r blaen, câi'r holl ffermydd eu "trin yn gyfartal"…

    - Arolwg blynyddol – 28 diwrnod i ymdrin ag achosion o ddiffyg cydymffurfio – arolwg blynyddol

    - Fodd bynnag, roedd rhai ffermydd yn cydymffurfio'n llwyr, tra oedd ffermydd eraill ag 20 achos o ddiffyg cydymffurfio

    - Arweiniai hyn at rwystredigaeth: "Pam mae Joe Bloggs wedi cael gwarant fferm pan mae ei fferm yn ****"

    - Ac mae rhai ffermydd yn methu â chydymffurfio'n barhaus

    - Ar sail canlyniad asesiad rheolaidd (nid hanes blaenorol)

    - Mae'r safonau wedi'u pwysoli ar sail risg i enw da

    - Caiff yr aelod ei gategoreiddio'n ôl natur a nifer yr achosion o ddiffyg cydymffurfio

    - Cynhelir hapwiriadau ar berfformwyr gwael, ar draul yr aelod

23. Dangosodd Cath i'r grŵp y gwahanol logos a ddefnyddiwyd gan y Tractor Coch dros y blynyddoedd. Defnyddir heriau olrhain trwy'r gadwyn gyflenwi. Os ydych eisiau defnyddio'r logo, rhaid ichi dalu ffi drwydded sy'n ariannu rhaglen heriau olrhain.

24. Aeth Cath ati i grynhoi'r cytundebau 'cydnabyddiaeth ar sail perfformiad' sydd gan y Tractor Coch ar hyn o bryd. Un enghraifft yw'r rheoliad Atal a Rheoli Llygredd gydag Asiantaeth yr Amgylchedd. Dan y trefniant hwn, wrth drwyddedu unedau moch a dofednod mae'r Tractor Coch yn cynnal yr arolwg trwyddedu ar ran Asiantaeth yr Amgylchedd, felly yn hytrach na bod Asiantaeth yr Amgylched yn gorfod cynnal ymweliad ddwywaith y flwyddyn, mae'r Tractor Coch yn cynnal yr arolwg ar yr un pryd â'i asesiad Tractor Coch blynyddol.

25. Diolchodd y Cadeirydd i Cath am ei chyflwyniad diddorol a manwl a dywedodd fod croeso i'r grŵp ofyn cwestiynau.

26. Dywedodd Bob Vaughan, CNC, fod CNC yn sefydliad â safon sicrwydd – mae gan CNC safon sicrwydd ar ei goetiroedd ac mae'n falch dros ben o hynny. Yn ôl Bob, mae ffermwyr yr un mor falch o'u safon sicrwydd hwythau a gofynnodd pam nad ydynt yn defnyddio'r logo ac ati ar lefel y fferm. Dywedodd Cath fod ffermwyr wedi cael cyfle i ddefnyddio arwyddion ar eu ffermydd am gyfnod, ond y pryder oedd y byddai aelodau nad oeddynt yn meddu ar y safon sicrwydd mwyach yn parhau i ddefnyddio'r logo a'r arwyddion, oherwydd ni allwn gadw golwg ar bethau felly. Yn ôl Cath, caiff y logo ei ddefnyddio i ryw raddau ar ffermydd, ond ni fyddai'r ffermwyr yn cael caniatâd i roi'r logo ar eu cynnyrch oni bai eu bod yn talu am drwydded ac felly her olrhain (er enghraifft, gwerthu cynnyrch yn eu siop fferm hunain).

27. O ran y sefydliadau yn Lloegr y mae gan y Tractor Coch gydnabyddiaeth ar sail perfformiad gyda nhw, gofynnodd Ed Davies, CNC, a ydynt yn anfon aseswyr gyda chyrff ardystio i sicrhau ansawdd yr arolygon a gynhelir. Dywedodd Cath eu bod yn gwneud hynny, ond nad yw'n digwydd yn swyddogol. Nid oes trefniant swyddogol ar waith lle byddwn, er mwyn dal gafael ar y gydnabyddiaeth hon yn mynd allan ac yn gwirio'r nifer dan sylw. Ond yn aml byddant yn anfon pobl o ran diddordeb, ar gyfer hyfforddi staff newydd neu ar gyfer gwirio wrth sefydlu asesiad cydnabyddiaeth ar sail perfformiad.

28. Gofynnodd Creighton a fyddai modd dosbarthu copi o'r cyflwyniad i'r grŵp, a dywedodd Cath y byddai hynny'n iawn. Ynglŷn â Chynnyrch Llaeth, dywedodd Creighton fod Cath wedi dweud mai'r sawl sy'n penodi'r arolygydd yw'r prynwr cyntaf. Nid yr arolygydd, yn ôl Cath, ond y corff ardystio sy'n cynnal yr holl ardystiad. Rhoddodd Creighton enghraifft: os mai ef oedd First Milk a'r prynwr cyntaf, yna ef fyddai'n penodi'r corff ardystio; cytunodd Cath fod hyn yn gywir. Gofynnodd Creighton a fyddai modd i Cath roi manylion am y cyrff ardystio sydd wedi'u penodi yn Ne Orllewin Cymru. Dywedodd Cath y byddai hynny, efallai, yn bosibl, ond awgrymodd y dylai Creighton gofrestru ar y system wirio ar-lein rad ac am ddim. Mae modd i'r system wirio ddweud wrthych pwy yw'r corff ardystio ar gyfer fferm arbennig. Gofynnodd Creighton a yw'r system hon ar gael i unrhyw aelod o'r cyhoedd, a chadarnhaodd Cath fod modd i bawb gofrestru ar y system wirio ar-lein.

    Dywedodd Creighton ei fod ar ddeall fod pedair prif safon yn perthyn i gynllun y Tractor Coch, sef lles anifeiliaid, diogelwch bwyd, olrhain a diogelu'r amgylchedd. O ran diogelu'r amgylchedd, soniodd Creighton fod Cath wedi dweud yn benodol mai diogelu'r amgylchedd oedd y nod dan sylw, yn hytrach na'i wella, a gofynnodd iddi esbonio hyn ymhellach. Dywedodd Cath nad yw'r Tractor Coch yn cwmpasu pethau yr ymdrinnir â nhw gan rai o'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol, neu blannu coed. Diogelu yw'r nod, felly mae'r gwaith yn ymwneud yn bennaf â phethau fel rheoliadau SSAFO; ac ar gyfer cnydau combein a chynnyrch ffres, mae'n ymwneud â phethau fel defnyddio plaladdwyr a gwrtaith.

    Dywedodd Creighton fod y map a ddangoswyd yn y cyflwyniad yn awgrymu bod cydberthynas i'w chael rhwng digwyddiadau llygredd a'r crynhoad o ffermydd Tractor Coch yn Ne Orllewin Cymru. Gofynnodd Creighton i Cath pa mor llwyddiannus yw cynllun y Tractor Coch os oes cydberthynas i'w chael rhwng nifer uchel yr aelodau a nifer uchel y digwyddiadau llygredd. Dywedodd Cath fod y Tractor Coch yn gwybod

bod problem i'w chael a bod hyn yn rhywbeth mae'r sefydliad yn ceisio'i wella. Mae'r Tractor Coch yn dymuno datblygu cynllun rhannu gwybodaeth, lle bydd gwybodaeth am ddigwyddiadau llygredd yn cael ei chyflwyno i ni. Mae'r Tractor Coch wedi bod yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr a gofynnwyd i'r Asiantaeth rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau llygredd. Mae'r Tractor Coch yn cynnal ymweliadau unwaith y flwyddyn neu unwaith bob 18 mis; os oes llygredd wedi digwydd, ac os nad yw'r ffermwr wedi'i erlyn, ni fydd y Tractor Coch yn gwybod am hynny. Os oes llygredd wedi digwydd, ac os nad oes unrhyw dystiolaeth o'r digwyddiad i'w gweld, yna ni fydd ein hasesydd yn ymwybodol o'r peth. Dywedodd Cath ei bod wedi sôn wrth CNC y byddai'r Tractor Coch yn falch o gael gwybodaeth am ddigwyddiadau llygredd, er mwyn i'r staff allu mynd ar drywydd y digwyddiadau hynny. Os nad yw'r Tractor Coch yn ymwybodol o ddigwyddiadau llygredd, yna ni all y staff wneud unrhyw beth yn eu cylch. Awgrymodd Creighton y dylai cynrychiolwyr CNC a oedd yn bresennol yn y cyfarfod nodi hyn a gweithio gyda chi i sicrhau eich bod yn cael gwybod am ddigwyddiadau llygredd, ac efallai y byddai modd i Lywodraeth Cymru nodi hyn hefyd gan fod bwlch mawr yn y system.

Dywedodd Creighton mai adroddiad gan Asiantaeth yr Amgylchedd yw'r 'Axe Report' – cafodd 86 o ffermydd eu harolygu yn ystod cyfnod o dair blynedd a chofnodwyd bod 82 ohonynt wedi methu â chydymffurfio â SSAFO. Dywedodd Creighton fod Cath wedi sôn eisoes am y ffaith fod cynllun y Tractor Coch yn gwirio a gydymffurfir â SSAFO. Yn ôl Creighton, mae hi'n siomedig gweld bod 82 o blith 86 o ffermydd wedi methu â chydymffurfio â SSAFO er ichi ddweud eich bod yn gwirio a gydymffurfir â SSAFO, a gofynnodd i Cath tybed beth oedd ganddi i'w ddweud am hyn. Dywedodd Cath nad yw cynllun y Tractor Coch yn gwirio cydymffurfiaeth â holl reoliadau SSAFO. Yn 2017 dechreuodd y Tractor Coch wirio gofynion SSAFO mwy penodol yn ymwneud â storio slyri, ac arweiniodd hyn at lu o broblemau i Asiantaeth yr Amgylchedd gan fod y ffermwyr hynny nad oeddynt yn cydymffurfio â SSAFO wedi cysylltu ag Asiantaeth yr Amgylchedd am gymorth. Ar y pryd, gofynnodd Asiantaeth yr Amgylchedd i'r Tractor Coch roi'r gorau i wirio gofynion manwl yn ymwneud â storio slyri, oherwydd yn y bôn ni allai Asiantaeth yr Amgylchedd ymdopi â nifer yr ymholiadau ac nid oeddynt yn gwybod sut i helpu ffermwyr i gydymffurfio'n well. Dywedodd Cath fod hyn yn rhywbeth y gwnaethant ddechrau ei wneud, ond roedd Asiantaeth yr Amgylchedd yn awyddus iddynt roi'r gorau iddo hyd nes y byddai grantiau i'w cael i geisio gwella storfeydd slyri. Yn ôl Cath, mae'r Tractor Coch wedi bod yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ers hynny i geisio gwella'r sefyllfa. Dywedodd Cath eu bod yn ymwybodol o'r broblem, ond maent yn gweithio'n agos iawn gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a byddent yn fodlon iawn gwneud yr un peth gyda CNC wrth symud ymlaen.

Dywedodd Creighton fod Cath wedi dweud mai un o brif nodau cynllun y Tractor Coch yw diogelu'r amgylchedd – yn ôl Creighton, mae hyn yn destun pryder. Oni ddylai diogelu'r amgylchedd fod ar flaen meddwl yr arolygwyr, ac oni ddylid casglu'r wybodaeth honno beth bynnag gan eich bod yn gynllun annibynnol sy'n cefnogi'r diwydiant? Os mai diogelu'r amgylchedd yw un o safonau cynllun y Tractor Coch, oni ddylech fynd ati i arolygu'r amgylchedd hwnnw – pa un a yw Asiantaeth yr Amgylchedd yn dymuno ichi wneud hynny, ai peidio? Dywedodd Cath fod hyn yn rhywbeth mae'r Tractor Coch yn awyddus iawn i'w wella; ond unwaith y flwyddyn y caiff yr ymweliadau eu cynnal, ac os na welir problemau yr adeg honno ac os na chaiff gwybodaeth am lygredd ei rhannu, ni all y Tractor Coch gymryd camau dilynol. Dywedodd Cath fod cynllun y Tractor Coch yn gwneud popeth o fewn ei allu i wella'r sefyllfa o fewn ei arolygon blynyddol. Awgrymodd Cath mai trwy rannu gwybodaeth y bydd y cynllun yn

cael yr effaith fwyaf yn hytrach na thrwy newid y safonau. Mae’r aseswyr yn gwirio’r safonau ac yn nodi ‘cydymffurfio’ neu ‘diffyg cydymffurfio’, ond os oes llygredd yn digwydd ar unrhyw adeg arall, ni allant wneud unrhyw beth yn ei gylch.

Gofynnodd Creighton a yw’r arolygon yn cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn ynteu ar adegau o’r flwyddyn pan mae llygredd yn fwyaf tebygol (h.y. Rhagfyr – Chwefror). Dywedodd Cath fod yr arolygon yn cael eu cynnal ar adegau gwahanol o’r flwyddyn a’u bod yn cael eu trefnu bob 18 mis. Felly, bydd yr arolygon yn cael eu cynnal yn ystod tymhorau gwahanol ac ar adegau gwahanol o’r flwyddyn ar gyfer llaeth, cig eidion a chig oen. Yn achos y cynlluniau eraill, cynhelir yr arolygon yn flynyddol rhwng cyfnod o 9-14 mis, felly mae yna hyblygrwydd i’r arolygwyr ymweld ar adegau gwahanol o’r flwyddyn.

Dywedodd Creighton fod Cath wedi sôn llawer am Asiantaeth yr Amgylchedd a gofynnodd i Cath sut byddai hi’n disgrifio perthynas y Tractor Coch gyda CNC a sut mae’n gweld y berthynas honno yn y dyfodol. Dywedodd Cath fod y Tractor Coch a CNC wedi dechrau meithrin perthynas agosach o lawer yn ystod y misoedd diwethaf. Mae ambell gyfarfod wedi’i gynnal, a’r sôn yw y bydd cyfarfod arall yn cael ei gynnal cyn bo hir, felly gobeithio bod hyn yn fan cychwyn ar gyfer sefydlu perthynas well wrth symud ymlaen, gyda’r naill yn siarad â’r llall.

Dywedodd Bob Vaughan, CNC, fod CNC hefyd yn awyddus i fwrw ymlaen â’r berthynas hon. Mae sicrwydd yn elfen allweddol o’r hyn y ceisiwn ei ddatblygu, ac felly rydym wedi bod yn cynnal cyfarfodydd gyda’r Tractor Coch. Dywedodd Zoe ei bod hi’n bwysig parhau i ddatblygu’r berthynas rhwng CNC a’r Tractor Coch.

29. Dywedodd Fraser McAuley, CLA, mai problem gyffredin ymhlith aelodau’r CLA yw sut gallant fonitro allyriadau carbon a chyfrifyddu carbon. Gofynnodd Fraser a oes unrhyw drafodaethau ar y gweill gyda’r Tractor Coch ynglŷn â rhyw fath o safon gytunedig a allai fod yn ddefnyddiol ar draws ffermydd. Yn ôl Cath, mae hyn yn anodd iawn oherwydd nid oes un fethodoleg gytunedig i’w chael. Cafwyd trafodaeth yn y rownd adolygu sydd newydd ei chynnal ynghylch a ddylai’r Tractor Coch gynnwys hyn, oherwydd y farn oedd ei bod hi’n rhy fuan ac yn rhy ddyrys i gynnwys hyn fel gofyniad i bawb i gyd ar unwaith. Yn ôl Cath, cytunwyd bod angen ailadolygu’r holl safonau amgylcheddol unwaith eto gan fod cynifer o newidiadau ar droed. Er ein bod o’r farn ein bod wedi gwneud ein gorau gyda safonau diogelu’r amgylchedd ar gyfer Fersiwn 5, yn ôl pob tebyg mae mwy o waith i’w wneud. Efallai fod angen inni ddatblygu llwybr ar wahân y bydd rhai aelodau’n ymrwymo iddo ac aelodau eraill yn peidio ag ymrwymo iddo, a byddai’r maes hwn yn rhywle y gallem ddechrau profi mesuriadau carbon.

30. Dywedodd Chris Mills, WEL, ei bod hi’n ddamniol bod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi gofyn i’r Tractor Coch roi’r gorau i gynnal arolygon SSAFO – os na all y rheoleiddiwr gynnal ei swyddogaeth statudol, mae pethau’n eithaf drwg. Yn ôl Chris, mae i gynlluniau gwarant fferm eu lle, ond nid yw o’r farn y gall pobl ddibynnu ar gynlluniau gwarant fferm i ddiogelu’r amgylchedd trwy’r dull statudol – ni allant ddisodli rheoleiddio. Dywedodd Chris nad yw’n cytuno mai dyma’r ffordd ymlaen. Rydym angen rheoleiddiwr ac mae angen rhoi’r cyfreithiau ar waith a sicrhau y cydymffurfir â nhw. Dywedodd Cath nad yw’r cytundebau cydnabyddiaeth ar sail perfformiad yn disodli rheoleiddio – mae a wnelont â chael perthynas weithio agos lle caiff gwybodaeth ei rhannu ble fo’i hangen. Eglurodd Cath na ofynnodd Asiantaeth yr Amgylchedd i’r Tractor Coch roi’r gorau i gynnal arolygon SSAFO yn gyffredinol, dim ond yr elfen storio

slyri. Roedd Asiantaeth yr Amgylchedd yn dymuno i'r Tractor Coch barhau i asesu, a dyna a wnaethpwyd, ond roedd yr Asiantaeth eisiau i'r aelodau gael llawer mwy o amser i gywiro/datblygu cynllun ymestyn. Ar y pryd roeddynt yn gweithio'n galed i drefnu grantiau ar gyfer storio slyri, ac yn awr bydd y grantiau hyn ar gael o dan y cynllun Rheoli Tir er lles yr Amgylchedd (ELM).

31. Gofynnodd Bernard Griffiths, FUW, a yw'r Tractor Coch yn dadansoddi achosion o gydymffurfio a diffyg cydymffurfio ar draws y gwahanol sectorau, ac yn asesu maint y mentrau. Yn ôl Bernard, mae'r FUW yn cynrychioli ffermwyr teuluol yn bennaf, a'r teimlad a geir yw bod ffermydd llai a gaiff eu rhedeg gan deuluoedd yn ei chael hi'n anodd cydymffurfio, ni waeth be fo'r cynllun gwarant dan sylw. Cadarnhaodd Cath fod cynllun y Tractor Coch yn dadansoddi achosion o gydymffurfio a diffyg cydymffurfio, ond nad yw'r dadansoddiadau'n dueddol o gael eu llunio ar sail maint y ffermydd. Awgrymodd Bernard y byddai'n werth ystyried y ddemograffeg sy'n berthnasol i'r data.

## Eitem 5 Cyflwyniad FAWL

32. Diolchodd y Cadeirydd i Moss ac Iestyn o Gynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru am ymuno â'r cyfarfod heddiw.

33. Rhannodd Moss gyflwyniad a dechreuodd trwy roi trosolwg o Gynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru:

- Cwmni cydweithredol amaethyddol sy'n cynnwys 7,200 o ffermwyr Cymru
- Mae'n berchen ar y Cynllun Gwarant Fferm Da Byw (FAWL)
- Cynllun Organig Cymru
- Aelod o gonsortiwm milfeddygon Iechyd Da
- Corff ardystio, Ardystio Bwyd Cymreig Safonol Cyf

34. Trafododd Moss Ardystio Bwyd Cymreig Safonol Cyf:

- Caiff ei achredu gan UKAS yn ôl safon ISO17065
- Mae'n arolygu mwy na 5,000 o ffermydd yng Nghymru bob blwyddyn
- 18 o staff, ynghyd â 32 o aseswyr
- Mae'n cynnal asesiadau ar y cyd â chynllun llaeth y Tractor Coch, Safonau Sicrwydd Bwyd
- Cydnabyddiaeth ar Sail Perfformiad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd
- Partneriaeth Awdurdod Sylfaenol

35. Cyflwynodd Moss gefndir FAWL a chynlluniau gwarant eraill:

- Llunio cytundeb fframwaith gyda QMS (Yr Alban); LMC (Gogledd Iwerddon) a Safonau Sicrwydd Bwyd (Y Tractor Coch)

- Cynnal asesiadau ar y cyd pan fo hynny'n berthnasol
- Mae Brexit a datganoli'n arwain at fwy o wahaniaethau rheoleiddio a chyfundrefnau archwilio
- Mae'r dirwedd fasnachol yn canolbwyntio ar leihau risg i enw da a chynyddu gwahaniaethu

36. Mae ganddynt safonau i'w hasesu ac, yn yr achos hwn, FAWL yw'r safon. Rhoddodd Moss drosolwg o Strwythur Ardystio QWFC ac ISO17065:

- Safon i'w hasesu
- System Rheoli Ansawdd
- Achrediad ISO17065 allanol – UKAS
- Arolygwyr
- Swyddogion Ardystio
- Pwyllgor Cynghori Technegol
- Corff Llywodraethu

37. Safonau presennol FAWL mewn perthynas â'r amgylchedd:

- Golwg gyffredinol
- CoGAP
- Cymhwysedd
- Polisïau neu gynlluniau rheoli
- Cyfleusterau storio
- Taenu
- Gwaredu gwastraff
- Dipio defaid

38. Rhoddodd Iestyn drosolwg o arolwg a gynhaliwyd ganddynt. Mae'r data'n deillio o bron i 2,500 o asesiadau a gynhaliwyd rhwng Gorffennaf 2020 a Rhagfyr 2020, gan ychwanegu wedyn y pum wythnos rhwng Chwefror a diwedd Mawrth (eu blwyddyn weithio). Yn ystod y cyfnod hwnnw, cafwyd 530 achos o ddiffyg cydymffurfio mewn perthynas â'r safonau amgylcheddol a fesurir ganddynt. Roedd mwy na 200 o'r achosion hyn yn ymwneud â 'storio tanwydd', yn bennaf o ran tanciau tanwydd nad oeddynt yn bodloni'r safon gyfredol. Roedd 38 o'r achosion diffyg cydymffurfio'n ymwneud â 'golwg gyffredinol', roedd 62 yn ymwneud â 'gwaredu gwastraff plastig', roedd 20 yn ymwneud â 'chyfarpar PPE heb ei raddnodi', roedd 41 yn ymwneud â

‘materion o ran storio tail a slyri’, ac roedd 9 yn ymwneud â ‘llygryddion posibl wedi’u storio’n wael’, er enghraifft storfeydd cemegau ac ati.

Dywedodd Iestyn fod yna wahaniaeth rhwng ‘risg’ a ‘difrifoldeb’, ac mae ganddynt broses fewnol sy’n delio â hyn. Cyfeiriodd Iestyn at un achos arbennig pan ddaethant ar draws materion difrifol yn ymwneud â storio a pheidio â bodloni’r gofynion. Ar y pryd, ymwelwyd â’r ffermwr a gwelwyd achos difrifol o ddiffyg cydymffurfio. Yn yr achos hwn, gwaharddwyd y ffermwr yn syth, a pharodd y gwaharddiad am dri mis a hanner. Yn ystod y cyfnod hwn, cyflwynodd FAWL gynigion yn ymwneud â’r hyn y byddai’n rhaid i’r ffermwr ei wneud, a gofynnwyd i’r ffermwr gymryd rhan mewn proses i greu cynllun, oherwydd nid oedd y broblem yn un y gellid ei datrys dros nos ac roedd angen cael ateb yn y tymor hwy. Cyflwynodd y ffermwr ei gynigion, ac ers y llynedd mae wedi bod o dan gyfundrefn FAWL lle caiff ymweliadau eu cynnal ar fyr rybudd bob chwarter (ar draul y ffermwr) am y tair blynedd nesaf. Er bod yr achos o ddiffyg cydymffurfio’n eithaf difrifol ar y cychwyn, mae FAWL yn monitro’r sefyllfa’n rheolaidd ac mae’r ffermwr yn cyflwyno diweddariadau. Ymhellach, mae’r ffermwr wedi gorfod ymhél â’r Awdurdod Lleol a CNC er mwyn cael gwybodaeth a chyngor i’w helpu i roi dulliau rheoli gwell ar waith. Dywedodd Iestyn hefyd fod y ffermwr wedi gweithio gyda’i Undeb ffermwyr i lunio’r cynigion, a gobeithio y bydd hyn o fudd iddo yn awr wrth ei gynorthwyo i gydymffurfio.

39. Soniodd Moss am Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 a safonau newydd FAWL o 1 Hydref 2021:

- Diwygiwyd safonau FAWL er mwyn iddynt gydweddu’n well â’r rheoliadau newydd
- Defnyddir ‘dylid’ yn hytrach na ‘rhaid’ wrth gyflwyno gofynion newydd y rheoliadau – er mwyn hysbysu a chodi ymwybyddiaeth
- Rhaglen hyfforddi ar gyfer aseswyr dros yr haf/hydref
- Cyflwynir y rheoliadau ar 1 Hydref 2021; fe’u rhoddir ar waith ar 1 Ionawr 2022

40. Daeth Moss â’r cyflwyniad i ben trwy drafod esblygu a materion y dyfodol:

- Rheoliadau Dŵr para 45 (1) a (2) – Mesurau Amgen
- Asesu ar sail risg
- Ymreolaeth/cydnabyddiaeth ar sail perfformiad
- Systemau cymorth y dyfodol
- Bygythiadau a chyfleoedd o ran masnachu

41. Soniodd Moss hefyd am bwysau megis cyllid ac adnoddau digonol ar gyfer y rheoleiddiwr, pwysau masnachol sydd ar ffermwyr, y galw o du defnyddwyr, cynhyrchu, cystadleurwydd a meddylfryd.

42. Cyfeiriodd Creighton Harvey, CFF, at y ffaith fod Moss wedi dweud bod arolygwyr ffermydd yn iau y dyddiau hyn, a gofynnodd a oes cydberthynas rhwng hyn ag

arolygwyr llai profiadol. Dywedodd Moss nad yw hyn yn wir o gwbl. Mae'n dda cael proffil aseswyr sy'n cynnwys pobl sydd wedi gadael y coleg ers rhai blynyddoedd ac sy'n meddu ar brofiad. Daw'r bobl hyn ag egni newydd i'r gwaith, ac mae'n bwysig denu amrywiaeth o bobl a chanddynt brofiad a chymwysterau gwahanol. Gofynnodd Creighton pa ganran o'r arolygwyr sydd dan 30 oed. Dywedodd Iestyn y byddai'n rhaid iddo edrych ar y gronfa ddata i ganfod hyn, ond bod ganddynt aseswyr o wahanol oedran. Dywedodd Creighton ei fod yn dymuno cael gwybod y ffigurau ar gyfer yr ymholiad hwn – mae CNC wedi cael problem o ran dal gafael ar staff, a phan mae CNC yn cynnal arolygon, yn aml caiff yr arolygon hynny eu cynnal gan arolygwyr dibrofiad.

Nododd Rachel Lewis-Davies, NFU, nad am oedran y dylid sôn, ond am brofiad a hyfforddiant. Ysgrifennodd Ed Davies, CNC, nad yw oedran yn ffordd o fesur profiad.

Cyfeiriodd Creighton at y ffaith fod Moss wedi dweud na chaiff CNC ei ariannu'n briodol i gynnal archwiliadau, a gofynnodd i Moss a oes ganddo bryderon ynglŷn â pha mor effeithiol yw archwiliadau CNC ar ffermydd. Dywedodd Moss nad beirniadaeth ar CNC yw hyn. Dywedodd Creighton ei fod wedi gofyn cwestiwn penodol gan fod Moss wedi crybwyll y mater a dweud na chaiff CNC ei ariannu'n briodol i gynnal yr archwiliadau – sef mater rhwng CNC a Llywodraeth Cymru. Gofynnodd Creighton i Moss unwaith eto a oes ganddo bryderon ynglŷn â pha mor effeithiol yw archwiliadau CNC. Dywedodd Moss fod ganddo bryderon. Gofynnodd Creighton i Moss esbonio pam y crybwyllodd y ffaith nad yw CNC yn cael ei ariannu'n briodol i gynnal archwiliadau. Dywedodd Moss fod yn rhaid inni, yn amlwg, fynd i'r afael â'r broblem a bod angen i bob un ohonom newid ein meddylfryd. Dywedodd Moss fod yn rhaid inni dderbyn bod problem i'w chael a bod yn rhaid inni wneud rhywbeth yn ei chylch. Gofynnodd Creighton i Moss pa broblemau penodol a oedd ganddo dan sylw. Llygredd dŵr oedd ateb Moss. Gofynnodd Creighton – fel sefydliad sy'n cynnal arolygon, pa anawsterau sydd gan y sefydliad. Dywedodd Moss fod yna sawl achos o ddiffyg cydymffurfio yn ymwneud â'r rheoliadau olew, fel yr esboniodd Iestyn yn gynharach, a bod y rhain yn ymwneud â byndiau annigonol a phibelli'n cael eu gadael y tu allan i'r byndiau. Dywedodd Moss fod rhai ffermwyr tenant mewn anghydfod â'u landlordiaid ynghylch ansawdd y cyfleusterau storio y mae arnynt eu hangen yn awr, heb sôn am yr hyn y byddant ei angen yn y dyfodol. Gofynnodd Creighton i Moss a ydynt yn cael anhawster i fynd i bob rhan o'r ffermydd pan fyddant yn cynnal arolygon. Yn ôl Moss, dim ond pan fydd amser yn brin y bydd anhawster o'r fath yn codi. Gofynnodd Creighton pa mor aml mae hyn yn digwydd. Dywedodd Moss na all ddweud pa mor aml mae hyn yn digwydd; ond pe bai'r arolygydd wedi dod ar draws problem yn ystod rhan o'r asesiad, er enghraifft problem gyda'r stoc, byddai'n treulio mwy o amser ar y broblem honno, ac wedyn byddai'n fwy tebygol o dreulio llai o amser ar agweddau eraill, fel pryderon amgylcheddol. Gofynnodd Creighton – felly mae arolygwyr, mewn rhai amgylchiadau, yn treulio llai o amser nag y dylent ar faterion amgylcheddol. Dywedodd Moss fod hynny'n anochel.

Awgrymodd Moss y dylid rhannu manylion Chris Mills fel y gall gysylltu ag ef yn uniongyrchol i drafod unrhyw ymholiadau.

***PG 01 Mehefin: Bod Bronwen Martin, CNC, yn rhannu manylion Chris Mills gyda Moss Jones.***

43. Soniodd Dennis Matheson, TFA, ei fod yn falch fod Moss wedi cyfeirio at yr anawsterau sy'n wynebu ffermwyr tenant. Dywedodd Dennis fod cyflwyniad wedi'i roi gan Jim

Moseley, Prif Swyddog Gweithredol y Tractor Coch, gerbron cyfarfod gweithredol rai blynyddoedd yn ôl. Un mater a drafodwyd oedd y ffaith nad yw rhai ffermwyr yn hoffi cynllun y Tractor Coch gan nad ydynt yn cael premiwm nac yn cael mwy o dâl am yr hyn a gynhyrchant. Un o'r rhesymau pam mae ffermwyr yn ymuno â'r cynllun yw gan fod ambell ladd-dy yn gwrthod cymryd stoc oni bai bod y fferm wedi'i gwarantu; fel arall, byddai'n rhaid i'r ffermwyr fynd â'r stoc i'r farchnad, lle nad oes angen gwarant fferm. Fodd bynnag, os oes prinder, yn aml bydd lladd-dai'n prynu'n uniongyrchol gan farchnadoedd wedi'u gwarantu neu ffermydd heb warant fferm.

Soniodd Dennis fod Dunbia wedi cysylltu ag ef gan fod y cwmni'n dymuno cynnal ei arolwg gwarant fferm ei hun oherwydd nad oedd ganddo ffydd yn arolygon y Tractor Coch na FAWL. Mae gan y cwmni ei dîm ei hun a dewisodd bump o ffermydd i ymweld â nhw yng Nghymru. Roedd yr arolygydd yn arfer bod yn arolygydd cig mewn lladd-dy cosher – dywedodd ei fod yn amgylchedd ofnadwy a bwriodd amheuaeth ar y dulliau o gofio bod ffermwyr Prydain yn destun rheoliadau mor llym.

Dywedodd Dennis fod yna amheuaeth ynglŷn â chymhwysedd un o'r cyrff arolygu, sef SAI Global. Mae'r cwmni hwn wedi lleihau'r gallu i ddelio â ffurflenni papur. Esboniodd Dennis fod ei warant fferm wedi cael ei atal cyn Covid gan nad oedd SAI Global wedi cael ffurflen i gadarnhau bod Dennis yn dymuno parhau gyda'r cynllun, er bod y ffurflen wedi'i hanfon trwy ddosbarthiad a gofnodwyd. Dywedwyd wrth Dennis fod y cwmni'n cael anawsterau gyda'i bost. Trefnwyd arolygiad, a chafodd Dennis wybod nad oedd yn cydymffurfio oherwydd nad oedd ganddo label bwyd anifeiliaid a oedd yn ymestyn yn ôl fwy na blwyddyn. Anfonodd Dennis gais am label trwy ddanfoniad a gofnodwyd, ond ni chafodd un. Yn ystod yr arolygiad a gynhaliwyd y llynedd, dywedodd yr arolygydd wrth Dennis fod hyn yn anghywir ac nad oedd yn ofynnol iddo gael label a oedd yn ymestyn yn ôl fwy na blwyddyn. Felly, mae yna anghysondeb yn y modd mae'r arolygwyr yn dehongli'r rheolau.

Cyfeiriodd Dennis at y ffaith fod Moss wedi sôn yn fyr am y cytundeb masnach. Yn ystod yr etholiad diwethaf, addawodd y Ceidwadwyr na fyddent byth yn caniatáu i unrhyw gynnyrch amaethyddol a oedd islaw safonau Prydain ddod i mewn i'r wlad – ond nid oeddynt byth bythoedd am gadw at hynny. Soniodd Dennis am yr amryfal wahaniaethau o ran safonau mewn gwledydd eraill o gymharu â'r DU, a dywedodd mai aelodau'r cyhoedd a ddylai benderfynu beth oeddynt yn dymuno'i gael.

Cadarnhaodd Cath fod y Tractor Coch yn gweithio gyda SAI Global a bod Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn cael eu cynnal yn gyson er mwyn cyflwyno gwelliannau. Dywedodd Cath eu bod yn gweithio'n eithriadol o galed i wella'r anghysondebau rhwng gwahanol aseswyr, a bod gan y Tractor Coch dîm newydd erbyn hyn sy'n gweithio ar gydymffurfio ac yn canolbwyntio ar hyfforddi aseswyr. O ran premiymau, os yw 95% o'r diwydiant amaethyddol â gwarant, dywedodd Cath na fydd premiymau i'w cael oherwydd bydd yn ofynnol gwerthu i'r farchnad.

44. Dywedodd Chris Mills, WEL, fod sefyllfa i'w chael lle mae'r cyrff gwarantu yn meddu ar adnoddau sylweddol i arolygu, ond mai diffyg adnoddau o'r fath yw problem y rheoleiddwyr. Ni ddylem ddisgwyl i'r cyrff gwarantu ddod yn rheoleiddwyr, ond dylai'r cyrff gwarantu a'r rheoleiddwyr gynnal trafodaethau er mwyn gweld ble yn union y gallant wneud y defnydd gorau o'r adnoddau.

## Eitem 6 Cyflwyniad Biosolidau DCWW

45. Estynnodd y Cadeirydd groeso i Shaun Thomas, Rheolwr Gweithrediadau Biosolidau Dŵr Cymru Welsh Water, i'r cyfarfod.

46. Rhannodd Shaun gyflwyniad. Nododd ei fod wedi cael rhai cwestiynau penodol cyn y cyfarfod a dywedodd y byddai'n ymdrin â'r rhain yn ystod y cyflwyniad.

47. Rhoddodd Shaun drosolwg o beth yw 'biosolidau' a'r prosesau cysylltiedig:

    - Y cynnyrch terfynol sy'n deillio o brosesau trin dŵr gwastraff

    - Enwau eraill ar fiosolidau yw Slwtsh, Cacen, Compost Carthion

    - Mwy nag 800 o weithfeydd trin carthion – cludir y deunydd i 28 o brif Ganolfannau Trin Slwtsh i'w dewychu cyn ei drin yn un o'r 4 safle Treulio Anaerobig Uwch

    - Cynhyrchir 110,000t o Fiosolidau bob blwyddyn

    - Mae'r broses dreulio'n cynhyrchu bio-nwy, ac yn ei dro defnyddiwn y bio-nwy hwn i gynhyrchu trydan adnewyddadwy neu nwy gwyrdd

    - Caiff y deunydd ei drin hyd at safon Uwch

    - Mae modd ailgylchu 100% o fiosolidau ar dir amaethyddol

    - Mae biosolidau'n llawn Ffosffad, Deunydd Organig, Nitrogen, Sylffwr, Magnesiwm

    - Ychydig iawn o arogl sydd ar y biosolidau hyn o gymharu â biosolidau sydd wedi'u trin mewn dull confensiynol neu gyda chalch

48. Dangosodd Shaun leoliad y safleoedd Treulio Anaerobig Uwch yng Nghymru. Dylai'r darpar gwsmeriaid fodloni'r meini prawf canlynol:

    - Bod o fewn radiws o 60 milltir i un o'r safleoedd
    - Y potensial i storio dros y gaeaf
    - Mynegai Ffosfforws isel
    - Gofyniad Deunydd Organig
    - Dull cydweithredol

49. Rhoddodd Shaun drosolwg byr o'r Cynllun Sicrwydd Biosolidau. Cyflwynwyd y Cynllun Sicrwydd Biosolidau yn 2016 a'i fwriad yw rhoi sicrwydd i'r gadwyn fwyd ac i ddefnyddwyr. Mae'n cwmpasu'r holl reolau a'r holl reoliadau o ran arferion gorau, yn cynnwys y Rheoliadau Slwtsh (Defnydd Amaethyddol), y Matrics Slwtsh Diogel mewn perthynas â phathogenau, a'r Matrics Rheoli Maethynnau Biosolidau mewn perthynas â ffosffad a sut y'i defnyddir. Mae gan DCWW nifer o brosesau a gweithdrefnau mewnol i sicrhau cydymffurfiaeth. Caiff gwaith archwilio rheolaidd ei wneud gan archwilwyr allanol (NSF), ac yn ystod y broses archwilio dywedwyd bod DCWW 'ar

flaen y gad yn y diwydiant’ o ran cydymffurfio. Yn ddiweddar, collodd cwmni dŵr cyfagos ei archrediad BAS – mae hyn yn arwydd o ddifrifoldeb y broses archwilio. Gellir cael rhagor o wybodaeth am archwiliad allanol annibynnol NSF ar wefan y cwmni – https://www.nsf.org/

50. Disgrifiodd Shaun y broses o ddefnyddio Biosolidau o safbwynt y ffermwr:

    1. Mae’r ffermwr yn cysylltu â Thîm Biosolidau DCWW – trefnir ymweliad â’r fferm.

    2. Bydd ymweliad yn cael ei gynnal i asesu pa mor addas yw’r fferm ar gyfer biosolidau.

    3. Bydd y ffermwr yn cyflwyno mapiau ac yn nodi ym mha gaeau mae angen samplu’r pridd.

    4. Bydd y Tîm Biosolidau yn samplu’r pridd a bydd asesiad risg yn cael ei gynnal mewn perthynas â’r caeau angenrheidiol.

    5. Bydd y ffermwr yn cael canlyniadau’r samplau pridd, lle nodir ym mha gaeau y gellir defnyddio biosolidau a beth fydd y cyfraddau taenu; caiff y biosolidau eu harchebu.

    6. Bydd y safle tipio’n cael ei asesu gan y contractwr cludo i weld pa mor addas ydyw.

    7. Bydd y biosolidau’n cael eu danfon.

    8. Bydd arolygon rheolaidd yn cael eu cynnal gan DCWW i fonitro sefydlogrwydd y cyflenwadau hyd nes y caiff y biosolidau eu taenu – rhaid eu taenu’n llwyr o fewn 12 mis i’w danfon.

    9. Ar ôl cwblhau’r gwaith taenu, bydd DCWW yn trefnu i ymweld â’r fferm i gofnodi’r dyddiadau taenu a sawl tunnell a daenwyd. Hefyd, trafodir beth fydd yr anghenion o ran biosolidau yn y dyfodol.

51. Dywedodd Shaun fod DCWW yn cynnal asesiadau amgylcheddol cyn samplu’r pridd, lle bydd Technegwyr Amaethyddol yn casglu gwybodaeth yn y maes ac wrth y bwrdd gwaith:

    - Parthau Perygl Nitradau, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ardaloedd cadwraeth, Parthau Cynllunio Syml
    - Cyrsiau dŵr, ceblau trydan, pibelli nwy, cyflenwadau dŵr, Hawliau Tramwy Cyhoeddus, topograffi
    - Agosrwydd at eiddo, busnesau, ardaloedd hamdden
    - Y math o gnwd, y math o bridd.

52. Dywedodd Shaun fod DCWW yn casglu gwybodaeth pan ymwelir â’r ffermwr er mwyn cywain gwybodaeth y ffermwr am y tir. Yna, caiff yr wybodaeth a gesglir ar sail yr astudiaeth ddesg a chan y ffermwr ei dilysu yn ystod yr ymweliad samplu pridd. Wedyn caiff mapiau eu creu a chaiff yr wybodaeth ei nodi arnynt (e.e. lleoliad cyrsiau dŵr, lleiniau clustogi, ceblau trydan, henebion hynafol, Parthau Perygl Nitradau ac ati).

53. Bydd y ffermwr yn cael pecyn gwybodaeth sy'n cynnwys y canlynol:

- Llyfryn biosolidau
- Dadansoddiad Slwtsh
- Dadansoddiad Pridd
- BAF 009 – Dogfen Addasrwydd Tir a Thaenu
- Mapiau
- Canllawiau taenu
- Y cyfraddau taenu uchaf ar sail canllawiau'r Matrics Rheoli Maethynnau Biosolidau.

- Hefyd, bydd y ffermwr yn arwyddo ffurflen cytundeb cwsmer.

54. Cyn danfon unrhyw fiosolidau, dywedodd Shaun y bydd DCWW yn rhoi gwybod i CNC/Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Awdurdod Lleol:

- Anfonir e-bost at randdeiliaid allweddol – CNC/Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Awdurdod Lleol – mewn perthynas â thaenu pob llwyth o Fiosolidau
- Cytunir ar y fformat gyda CNC yn ystod gweithdy blynyddol
- Cyflwynir manylion y fferm a mapiau o'r caeau gyda Chyfeirnodau Grid Cenedlaethol
- Gofynnir am fanylion ynghylch unrhyw risgiau ychwanegol h.y. cyflenwadau dŵr preifat neu unrhyw bryderon/ymholiadau
- Ni chaniateir taenu am 10 diwrnod gwaith er mwyn rhoi digon o amser i ymateb i unrhyw faterion a chydweithio arnynt h.y. newid mapiau caeau er mwyn cyflwyno mwy o 'barthau dim taenu' ac ati.
- Esemptiad gwastraff A3: storio slwtsh – cofrestru gyda CNC/Asiantaeth yr Amgylchedd
- Mae esemptiad A3 yn caniatáu ichi storio slwtsh carthion ar safle lle bydd yn cael ei ddefnyddio'n unol â Rheoliadau Slwtsh (Defnydd Amaethyddol) 1989
- Nodi union leoliad y cyflenwadau

55. Dywedodd Shaun fod DCWW wedi datblygu ateb TG ar gyfer olrhain cyflenwadau:

- System awtomataidd sy'n diweddaru'n ddyddiol
- Caiff lleoliad pob cyflenwad ei gofnodi
- Dot gwyn = lleoliad cyflenwad hanesyddol

- Dot melyn = cyflenwad cyfredol, cynhaliwyd arolwg diweddar

- Dot coch = cyflenwad cyfredol, angen cynnal arolwg o fewn pythefnos

- Gwneir yn siŵr y bydd cyflenwadau'n cael eu harolygu'n rheolaidd er mwyn cadarnhau eu cyfanrwydd

- Ymdrech ar y cyd

56. O ran Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021, dywedodd Shaun mai'r peth pwysicaf i DCWW yw cydymffurfio, ynghyd â sicrhau y cynhelir archwiliadau llwyddiannus a mynd ati'n effeithiol i ailgylchu biosolidau mewn modd effeithlon sy'n cydymffurfio â'r rheolau.

    Dywedodd Shaun fod DCWW yn cydymffurfio'n barod gan fod y cwmni eisoes yn dilyn nifer o reoliadau, yn cynnwys y terfyn N/ha 250kg. Mae DCWW wedi pennu meysydd newydd i'w gwella ac mae wedi cyflwyno asesiad fferm newydd sy'n ystyried yr holl dail organig ar ffermydd.

57. Daw'r brif her sy'n wynebu DCWW fel cwmni i rym ar 1 Ionawr 2023. Mae'r her hon yn ymwneud â 'Safleoedd caeau dros dro', yn benodol felly 'Cymal d' sy'n nodi na ddylid lleoli safle cae dros dro yn yr un lle â safle blaenorol a adeiladwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf'. Felly, yn y bôn, mae DCWW angen bwlch o ddwy flynedd cyn storio cyflenwadau yn yr un lle.

    Esboniodd Shaun ei bod hi'n haws ymdrin â storio cyflenwadau a logisteg yn ystod yr haf a bod llai o risg yn perthyn i'r elfennau hyn yr adeg honno; ond mae hi'n anos danfon cyflenwadau yn ystod y gaeaf ac mae mwy o risg yn perthyn i'r arfer ac mae'n ofynnol cael:

    - Arwyneb solet

    - Byndiau

    - Mynediad ar gyfer lorïau

    Mae DCWW yn ystyried opsiynau ychwanegol ar gyfer storio yn ystod y gaeaf – bydd cost fawr ynghlwm wrth yr opsiynau hyn.

58. Rhoddodd Shaun drosolwg o'r trywydd a ddilynir yn y tymor hwy:

    - Canolbwyntio llawer ar Amaethyddiaeth, taenu gwrtaith organig ac ailgylchu Biosolidau

    - Strategaeth Slwtsh Asiantaeth yr Amgylchedd, Rheolau Ffermio ar gyfer Dŵr ac ati

    - Bydd DCWW yn buddsoddi mewn cylchoedd 5 mlynedd (Cynllunio Rheoli Asedau)

    - Cynigir buddsoddi mewn technoleg sychu arloesol er mwyn:

- Lleihau'r crynswth, i leihau'r anghenion storio a lleihau'r costau cludo

- Lleihau ein hôl troed carbon

- Gwella'r gallu i bentyrru'r deunydd mewn caeau

- Paratoi ar gyfer prosesau gwaredu amgen neu ar gyfer ei ddefnyddio fel tanwydd

- Atal llygredd

- Cynyddu'r opsiynau adfer adnoddau

- Ei wneud yn fwy atyniadol i ddefnyddwyr eraill

59. Dywedodd Bernard Griffiths, FUW, ei fod wedi crybwyll pryderon ynglŷn â'r heriau ychwanegol a ddaw i ran DCWW yn sgil y rheoliadau newydd hyn. Mae'r newidiadau a ddaw yn sgil y rheoliadau hyn yn golygu na fydd DCWW, o bosibl, yn cael mynediad at y nifer o ffermydd yr arferid cael mynediad atynt. Gofynnodd Bernard a fydd her yn wynebu DCWW o ran cyfanswm capasiti biosolidau ac a fydd modd i'r cwmni eu hanfon allan fel yr arferid ei wneud cyn y rheoliadau hyn, oherwydd cyfeiriwyd yn y cyflwyniad at broblemau posibl o ran storio. Gofynnodd Bernard hefyd beth oedd barn y diwydiant cyfleustodau ynglŷn â'r rheoliadau'n gyffredinol. Cydnabu Bernard ei bod hi'n braf clywed Shaun yn sôn am arloesi a'r posibilrwydd o sychu solidau er mwyn cynhyrchu gronynnau 90%, a gofynnodd tybed a fyddai modd iddynt weithio ochr yn ochr â phrosiect Gelli Aur er mwyn helpu i drin slyri ffermydd yn yr un modd.

    Mewn perthynas â'r ailgylchu parhaus, dywedodd Shaun ei bod yn debygol y bydd yna gyfyngiad o ran hyn; mae'r rheoliadau newydd yn effeithio ar ffermydd arbennig, ac felly nid yw'r ffermydd hynny'n opsiwn i DCWW mwyach. Yn ôl Shaun, bydd modd iddynt ddod o hyd i gwsmeriaid newydd gyda gwaith caled y tîm a dywedodd y gall hyn olygu y bydd yn rhaid iddynt deithio dipyn ymhellach nag o'r blaen. Dywedodd Shaun y bydd heriau newydd a chostau ychwanegol i'w cael, megis costau cludo ychwanegol. Y peth pwysicaf i DCWW yw cydymffurfio. Yn achos ffermydd presennol a chanddynt ardaloedd storio da iawn gydag arwynebau solet a byndiau, dywedodd Shaun ei bod yn drueni mai unwaith bob tair blynedd yn unig y gallant ddefnyddio'r ardaloedd hyn. Felly, efallai y bydd yn rhaid iddynt storio cyflenwadau ar gaeau – sef arfer sy'n llai diogel i'r amgylchedd.

    O ran y prosiect Gelli Aur, mae aelodau tîm arloesi DCWW â chysylltiadau agos â'r prosiect. Os bydd y broses sychu'n cael ei rhoi ar waith yn llwyddiannus, efallai y bydd cyfle i archwilio a chydweithio ag eraill.

    Yn ôl Bernard, ymddengys mai'r canlyniad anfwriadol yw bod y rheoliadau'n ceisio lleihau'r risg ar y fferm ond y byddant yn cynyddu'r risg yn yr ardaloedd lle bydd DCWW yn gorfod symud y safleoedd storio'n amlach, ac wedyn efallai y byddant yn cael eu gwarchod i raddau llai. Dywedodd Shaun ei fod ar ddeall mai bwriad y rheoliadau yw atal yr arfer o storio gormod o gyflenwadau yn yr un lle wrth ddefnyddio'r un safle y naill flwyddyn ar ôl y llall.

60. Gofynnodd Ed Davies, CNC, pa mor aml y caiff y cyflenwadau eu harchwilio. Hefyd, mewn perthynas â'r rheoliadau newydd, gofynnodd Ed a yw DCWW wedi ymchwilio i'r potensial o storio mwy o gyflenwadau ar eu safleoedd presennol.

Dywedodd Shaun fod y gwaith o archwilio'r cyflenwadau'n cael ei wneud bob 6 wythnos, felly os na fydd y cyflenwad wedi cael ei archwilio o fewn 6 wythnos, bydd y dot ar y map yn troi'n goch ac yna bydd ganddynt ryw bythefnos i gynnal yr archwiliad. Mewn gwirionedd, caiff pob cyflenwad ei archwilio bob deufis fan leiaf, ond bydd mynychder yr archwiliadau'n newid yn achos tywydd garw, megis stormydd, ac os oes mesurau lliniaru ar waith.

O ran storio dros y gaeaf, dywedodd Shaun fod peth deunydd yn cael ei storio ar y safleoedd, ond dim llawer. Os ystyriwch faint o ddeunydd a gynhyrchir yn flynyddol ar y pedwar safle, mae'r swm yn fawr iawn. Mae DCWW yn chwilio am gyfleusterau addas ar gyfer storio deunydd dros y gaeaf, yn ddelfrydol rhywle a chanddo do er mwyn cysgodi'r deunydd rhag yr elfennau ac atal problemau llygredd posibl.

Gofynnodd Ed beth yw'r trefniant cystodaeth mewn perthynas â'r cyflenwadau, a ble mae'r risg a'r cyfrifoldeb yn gorwedd pan fydd y cyflenwadau yn y cae. Dywedodd Shaun fod DCWW yn derbyn cyfrifoldeb llawn am y biosolidau hyd nes y byddant wedi'u taenu'n llwyddiannus. Felly, os oes problemau i'w cael gyda'r cyflenwadau, bydd DCWW yn rhoi mesurau lliniaru ar waith ac yn talu amdanynt.

## Eitem 7 Trafodaeth ynghylch y Fenter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI)

61. Aeth Marc Williams ac Ed Davies CNC ati i arwain trafodaeth fer ynglŷn â'r Fenter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI). Soniwyd yn flaenorol am rai heriau, a gofynnodd Marc tybed a oedd y grŵp yn dymuno trafod y rhain gyda Gareth Browning (Tîm SBRI, Llywodraeth Cymru). Bydd y mwyafrif o'r cyllid yn dod trwy dîm SBRI Llywodraeth Cymru, ond hefyd fe fydd yna beth cyllid ychwanegol y bydd yn rhaid cael gafael arno.

62. Rhoddodd Ed fraslun byr o'r pryderon a'r heriau:

Pryder 1: 'Sicrhau bod y dechnoleg fonitro a'r data deilliedig yn ddealladwy ac yn hawdd eu darparu i ffermwyr mewn modd costeffeithiol, yn cynnwys gwneud data mapio pridd yn hygyrch'.

Her 1: 'Rhoi data a gwybodaeth i ffermwyr a fydd yn eu galluogi i reoli eu tir yn gynaliadwy a darparu mynediad agored a gwybodaeth hawdd ei dehongli am wella cyflwr pridd'.

Pryder 2: 'Sut i ddarparu pecyn addysg ar gyfer y genhedlaeth nesaf o ffermwyr yn ymwneud â materion llygredd a thaenu maethynnau ar dir'.

Her 2: 'Helpu rheolwyr tir i wneud y dewisiadau iawn'.

***PG 02 Mehefin: Bod Ed Davies, CNC, yn anfon e-bost at yr aelodau i roi manylion iddynt am yr heriau a'r pryderon a grybwyllwyd, er mwyn i'r aelodau allu ystyried cyfleoedd y Fenter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI) ac awgrymu syniadau.***

63. Gofynnodd Dennis Matheson, TFA, a oedd a wnelo hyn â'r cyflwyniad a roddwyd ym Mangor. Cadarnhaodd Bob Vaughan, CNC, fod hyn yn gysylltiedig â'r drafodaeth honno.

64. Wrth edrych tua'r dyfodol ac wrth ystyried y gofynion o ran newid hinsawdd, dywedodd Sarah Hetherington, CNC, y bydd angen ailgylchu cynhyrchion gwastraff trwy eu taenu ar y tir yn hytrach na defnyddio gwrteithiau crai. Agwedd allweddol ar y broblem hon yw eu bod yn dod ar ffurf bwndel o faethynnau – os ydym eisiau diwallu anghenion y pridd a'r cnydau, mae hyn yn golygu bod angen inni allu eu defnyddio mewn ffordd effeithiol i ddiwallu anghenion y cnydau a'r maethynnau a pheidio â defnyddio gormod ohonynt. Felly, sut gallwn ddefnyddio'r cynhyrchion hyn mewn modd a fydd yn cynnig hyblygrwydd o ran yr hyn mae'r tir ei angen.

***PG 03 Mehefin: Bod Bronwen Martin, CNC, yn ychwanegu trafodaeth ynghylch y Fenter Ymchwil Busnesau Bach at agenda'r cyfarfod nesaf.***

## Eitem 8 Diweddariad Byr gan Lywodraeth Cymru a thrafodaeth ynghylch mesurau amgen

65. Rhoddodd Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru, ddiweddariad byr ynglŷn â'r drafodaeth ddiweddar yn y Senedd. Y brif neges yw nad oes unrhyw beth wedi newid o ran Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Os bydd rhywbeth yn newid yn y dyfodol, bydd y newidiadau hynny'n cael eu cyfathrebu'n glir. Rhaid i ffermwyr barhau i gymryd camau erbyn y dyddiadau allweddol a nodir yn y rheoliadau.

66. Gofynnodd Marc Williams, CNC, a oedd yr aelodau'n dymuno gwneud penderfyniad ynghylch gweithio gyda'i gilydd i lunio cynnig ar gyfer mesurau amgen.

67. Yn ôl Spencer, dywedwyd yn glir mai cyfle am gyfnod penodol yw hwn ac mai hyn a hyn o amser yn unig sydd ar gael i gyflwyno mesurau amgen, felly dylai'r grŵp wneud yn fawr o'r amser sydd ar gael a bwrw ymlaen â'r dasg.

68. Nododd Dennis Matheson, TFA, nad ydynt byth wedi cael y ddogfen Cwestiynau Cyffredin yn ymwneud â'r canllawiau ar gyfer ffermwyr tenant, a gofynnodd pryd byddant yn cael y ddogfen hon. Dywedodd Spencer y bydd modd cyflwyno fersiwn ddrafft o'r ddogfen, yn amodol ar gyngor cyfreithiol, erbyn diwedd yr wythnos.

69. Gofynnodd Chris Mills, WEL, a fydd y newidiadau a gyflwynir i'r rheoliadau yn sgil yr ymarfer hwn yn arwain at ymgynghoriad pellach. Dywedodd Spencer ei fod wedi gofyn y cwestiwn hwn yn fewnol a'i fod yn disgwyl ateb.

70. Oherwydd y cyhoeddiad yn y Senedd, gofynnodd Bob Vaughan, CNC, a oedd Spencer yn disgwyl i'r amserlen gael ei chyflymu a'i chwblhau ynghynt na'r trefniant 18 mis. Yn ôl Spencer, nid oes unrhyw fwriad ar hyn o bryd i newid yr amserlen sydd ar waith eisoes.

71. Yn ôl Fraser McAuley, CLA, mae'n ymddangos y bydd adolygiad pwyllgor y Senedd angen tystiolaeth gan sefydliadau unigol, ac y bydd a wnelo'r dystiolaeth hon yn fwy ag effeithiau posibl y rheoliadau ar y gwahanol aelodau. The second stage appears as the review of the regulations in 18-months would be the time when these alternative

measures. Os felly, bydd yn rhaid inni adolygu pa agweddau ar y rheoliadau y gallwn fyw gyda nhw a thynnu sylw at y meysydd penodol hynny sy'n peri problemau a chanolbwyntio ar y meysydd hynny.

72. Dywedodd Zoe ei bod o'r farn y dylai grŵp bach fynd ati i ystyried mesurau amgen posibl. A fyddai modd i grŵp bach dreulio peth amser yn datblygu'r dystiolaeth i ddangos bod y mesur amgen yn well na'r mesur presennol?

73. Gofynnodd Bob a yw'r grŵp yn ei gyfanrwydd yn fodlon comisiynu'r gwaith hwnnw ac ymateb i'r her. Gallem edrych ar yr hyn a wnaethpwyd gennym o'r blaen, a'r canlyniadau, gan fynd ati i archwilio'r posibiliadau. Cytunodd yr aelodau â Bob. Dywedodd Chris fod angen i'r grŵp bach gynnwys cydbwysedd o safbwyntiau gwahanol. Cytunodd Bob, a dywedodd y byddai hynny'n helpu i gael ymateb cytbwys. Soniodd Chris fod Spencer wedi dweud mai hyn a hyn o amser yn unig sydd ar gael, a gofynnodd beth oedd y cyfnod hwnnw. 18 mis o 1 Ebrill 2021, yn ôl Spencer. Awgrymodd Bob y bydd gan y grŵp 12 mis i ymdrin â'r mater. Yn ôl Creighton rhaid i'r grŵp bach gael cydwybod er mwyn sicrhau na fydd yn dilyn un llwybr yn unig, a chefnogi buddiannau'r diwydiant a'r rhai sy'n edrych yn fwy gwrthrychol ar yr hyn sy'n digwydd yn yr afonydd.

74. Awgrymodd Zoe y gallai Marc ac Ed ffurfio grŵp bach a dechrau ar y broses trwy feddwl am rai syniadau.

***PG 04 Mehefin: Bod Marc Williams ac Ed Davies, CNC, yn gwahodd yr aelodau i gymryd rhan mewn gweithgor bach i drafod syniadau ar gyfer Mesurau Amgen.***

75. Awgrymodd Bob y bydd yr aelodau'n cael cais ffurfiol i ymuno â'r grŵp bach.

## Eitem 9 Unrhyw Fater Arall

76. Rhoddodd Einir Williams, Cyswllt Ffermio, ddiweddariad byr ynglŷn â'r cynllun cyfathrebu ar gyfer y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Diolchodd Einir i Ed am rannu dolen y weminar gydag aelodau'r Is-grŵp. Nododd Einir fod rhai o aelodau'r Is-grŵp wedi cofrestru ar gyfer y weminar a diolchodd iddynt am eu cefnogaeth. Mae mwy na 100 o bobl wedi cofrestru i gymryd rhan yn y weminar a bydd y recordiad ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio cyn bo hir.

    Dywedodd Einir fod gwaith ar y gweill ar y Taflenni Ffeithiau ac y bydd copïau caled yn cael eu cyhoeddi'n fuan. Hefyd, mae gwaith ar daflenni ffeithiau pellach ar y gweill, a bydd y taflenni hyn yn ymdrin â sut i baratoi ar gyfer 1 Ionawr 2023 a'r flwyddyn ganlynol.

    Hefyd, mae Cyswllt Ffermio'n gweithio ar weminar a chynnwys gweithdy gyda phartneriaid sy'n cynnwys y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth a HCC, ac mae'n cydweithio gyda CNC. Ymhellach, byddai Cyswllt Ffermio'n croesawu cydweithio pellach gydag unrhyw un o aelodau'r Is-grŵp.

    Dywedodd Einir hefyd fod archwiliad yn cael ei gynnal ar ffermydd arddangos Cyswllt Ffermio er mwyn chwilio am enghreifftiau o arferion gorau a materion sydd angen eu datrys. Mae hi bob amser yn ddefnyddiol cael enghreifftiau ymarferol i'w dangos i ffermwyr.

77. Dywedodd Fraser McAuley, CLA, fod strategaeth dŵr y CLA wedi'i chyhoeddi bellach. Bydd yn anfon dolen at Bronwen i'w dosbarthu ymhlith y grŵp – Strategaeth Dŵr y CLA.

78. Dywedodd Marc Williams, CNC, ei fod wedi cael gohebiaeth gyda chwmni o'r Iseldiroedd sydd wedi datblygu sganiwr maethynnau, a gofynnodd a fyddai gan y grŵp ddiddordeb mewn clywed rhagor am hyn yn un o gyfarfodydd y dyfodol i ategu'r gwaith arloesi. Cytunodd yr aelodau y byddent yn hoffi clywed rhagor am hyn.

***PG 05 Mehefin: Bod Marc Williams, CNC, yn trefnu cyflwyniad gan Agrocares i ddysgu mwy am y sganiwr maethynnau.***

79. Fe wnaeth Geraint Hamer, Llywodraeth Cymru, atgoffa'r grŵp y bydd yr ymgynghoriad ynghylch y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn dod i ben yfory (22 Mehefin 2021), a gofynnodd i bobl gyflwyno ymateb os nad oeddynt wedi gwneud hynny eisoes.

80. Dywedodd Dennis Matheson, TFA, ei fod wedi mynychu gweminar Cyswllt Ffermio yn ddiweddar a'i fod o'r farn ei bod yn weminar dda iawn. Roedd gan Dennis rai ymholiadau'n ymwneud â'r weminar, sef:

- O ran y ffigurau ar gyfer y gyfrifiannell llwythi nitrogen ôl-weithredol, roedd Dennis yn tybio mai ffigurau treigl oedd y rhain yn hytrach na ffigurau ar 1 Ionawr bob blwyddyn.

- Trafodwyd llawer ar beth oedd 'tail buarth', oherwydd yn y rheoliadau mae'r term 'tail' yn cwmpasu popeth, ond tail y gellir ei bentyrru yw 'tail buarth'. Dywedodd Dennis fod hyn yn achosi rhywfaint o ddryswch, felly dylid cael eglurhad yn ei gylch.

Dywedodd Einir y bydd yn ymchwilio i'r ymholiadau hyn pe bai Bronwen yn gwneud nodyn ohonynt ac yn eu hanfon ati.

***PG 06 Mehefin: Bod Bronwen Martin, CNC, yn rhoi cwestiynau Dennis Matheson ynglŷn â'r weminar i Einir Williams, Cyswllt Ffermio.***

## Diwedd y cyfarfod